## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Nant, Prestatyn Ddydd Gwener, 17 Rhagfyr, 2010 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), Y Cynghorydd G.A. Green a Ms M.E. Medley a Mrs P. White.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Swyddog Monitro, y darpar Ddirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gweinyddol (C.I.Williams).

### 572 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd H.Ll. Jones a Mr G.F.Roberts.

### 573 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

***PENDERFYNWYD** –na wnaeth unrhyw Aelod ddatgan unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.*

### 574 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater a ganlyn i'w drafod a oedd yn gofyn am sylw brys:-

1. Panel Dyfarnu Cymru – Adroddiad Blynyddol.
2. Rhestr o Glercod Cyngor Cymuned a Thref.
3. Llythyr gan Gyngor Tref y Rhyl.
4. Manylion Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

### 575 COFNODION

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd Ddydd Gwener, 5 Tachwedd, 2010 eu cyflwyno.

***PENDERFYNWYD** – derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

### 576 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Hysbysodd y Swyddog Monitro'r Pwyllgor nad oedd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig yn ymwneud â phresenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cyngor Sir, Tref neu Gymuned.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ei fod wedi mynychu cyfarfod o Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, a gynhaliwyd Ddydd Iau, 25 Tachwedd, 2010 yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Esboniodd y Cynghorydd G.A. Green a'r Swyddog Monitro eu bod wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Tref Prestatyn a rhoddwyd adroddiadau ar lafar mewn perthynas â thrafodion y cyfarfodydd priodol.

Ar ôl trafodaeth ar y cyfarfodydd a fynychwyd, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau y dylai'r swyddogion ddilyn ymlaen ar ddarparu hyfforddiant pellach ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, esboniodd y Swyddog Monitro y byddai hyfforddiant yn cael ei gynnal fel rhan o raglen hyfforddi'r Sir a byddai'n digwydd yn ôl pob tebyg ar ôl etholiadau'r Cyngor Sir. Esboniwyd y byddai arolwg trylwyr yn cael ei gynnal i ganfod gofynion ac anghenion Aelodau, a byddai adroddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn tynnu sylw at ganfyddiadau'r arolwg.

***PENDERFYNWYD** – y dylid derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa.*

**577 SWYDD WAG AELOD CYNGOR TREF A CHYMUNED**

Esboniodd y Swyddog Monitro, fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2010, ei fod wedi ail ymgynghori gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'u Cydgysylltiadau i geisio enwebiadau a datganiadau ategol ar gyfer y swydd wag Aelod Cyngor Tref a Chymuned. Fe hysbysodd Aelodau ei fod yn aros am ymatebion ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.

Ar ôl trafodaeth gryno:-

***PENDERFYNWYD –*** *y dylai'r Pwyllgor Safonau nodi'r sefyllfa.*

**578 CYNHADLEDD SAFONAU YNG NGHYMRU**

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor Safonau y byddai Cynhadledd Safonau Cymru 2011 yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Powys a byddai manylion pellach yn cael eu dosbarthu ar ôl terfynu'r trefniadau.

Esboniodd y Swyddog Monitro fod cynrychiolwyr Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi awgrymu trefnu cyfarfod o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, a fyddai'n cynnig cyfle i aelodau lleol y Pwyllgorau Safonau gwrdd ac ystyried materion yn ymwneud â Gogledd Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylai'r Pwyllgor Safonau nodi:-*

*(a) y byddai Cynhadledd Safonau Cymru 2011 yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Powys, ac*
*(b) y bydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn trefnu cyfarfod o Bwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.*

**579 EITEMAU BRYS**

1. Panel Dyfarnu Cymru – Adroddiad Blynyddol.

Dosbarthodd y Swyddog Monitro gopi o Adroddiad Blynyddol - Panel Dyfarnu Cymru yn y cyfarfod. Cytunodd Aelodau y dylai eitem gael ei chynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau i ystyried cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylai Adroddiad Blynyddol - Panel Dyfarnu Cymru gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.*

2. Rhestr o Glercod Cyngor Cymuned a Thref.

Dosbarthwyd copi o restr o Glercod Cyngor Tref a Chymuned, a'u rhifau ffôn perthnasol, i Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod. Esboniodd y Swyddog Monitro fod rhestr yn ymwneud ag amserau, dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned yn cael ei hystyried gan y Rheolwr Cyswllt ac Ymgynghori yn yr Uned Bolisi ond hyd yma oherwydd nifer y Cynghorau a'u trefniadau unigol nid oedd hyn wedi bod yn bosibl hyd yma.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn y rhestr Clercod Tref a Chymuned.*

3. Llythyr gan Gyngor Tref y Rhyl.

Adroddodd y Swyddog Monitro ei fod wedi derbyn llythyr gan Glerc Cyngor Tref y Rhyl, a oedd yn ymwneud â'r Pwyllgor Safonau yn ystyried cais i ddiwygio'r lefel oddefeb a ganiateir i'r Aelodau hynny a oedd â diddordeb yn Undeb Credyd Arfordir Clwyd.

Esboniodd y Swyddog Monitro fod Cyngor Tref y Rhyl wedi'u hysbysu o'r penderfyniad a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau, ar ôl trafodaeth fanwl, i beidio â diwygio'r oddefeb ar gyfer Aelodau hynny'r Cyngor Tref a oedd â buddsoddiad, naill ai debyd neu gredyd, gydag Undeb Credyd Arfordir Clwyd.

Hysbyswyd Aelodau bod llythyr gan Glerc y Cyngor Tref wedi cynnwys cynnig gan Undeb Credyd Arfordir Clwyd i roi arddangosiad o'r gwaith y mae'n ei wneud gyda chymunedau Sir Ddinbych. Esboniodd y Swyddog Monitro y byddai'r goddefebau a ganiateir ond yn rhedeg hyd at etholiadau nesaf y Llywodraeth Leol ym mis Mai, 2012, pan fyddai'n agored i Aelodau Cyngor Tref y Rhyl i wneud cais o'r newydd gan roi ystyriaeth i'r amgylchiadau a oedd yn berthnasol bryd hynny. Cefnogodd aelodau'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Swyddog Monitro, a:-

***PHENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn yr adroddiad ac y dylid nodi'r sefyllfa.*

4. Manylion Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid llunio rhestr yn cynnwys gwybodaeth bersonol, megis cyfeiriadau a rhifau ffôn Aelodau'r Pwyllgor, a'i dosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid llunio rhestr o fanylion personol yn ymwneud ag Aelodau'r Pwyllgor Safonau a'i dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.*

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad ar ddod y Swyddog Monitro a diolchwyd iddo am y cymorth a'r arweiniad yr oedd wedi'i roi i'r Pwyllgor Safonau ers ei sefydlu. Roedd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dymuno'r gorau i'r Swyddog Monitro ac ymddeoliad hir a hapus.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.

***********